Newyddlen

Hydref 2011

Am ddim

Menter Iaith Sir Ddinbych

Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

NEWYDDLEN MENTER IAITH SIR DDINBYCH 2011

Menter Iaith Sir Ddinbych

Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Sir Ddinbych

Eto eleni mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn eich gwahodd i'r Cyfarfod Blynyddol. Eleni bydd y cyfarfod ar **Nos Fercher, Hydref y 5ed, am 6:45 y.h.** mewn lleoliad newydd, sef Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl. Gobeithiwn y byddwch yn ymuno â ni i glywed am ein gwaith yn ystod 2010-11, ac am yr hyn sydd gennym ar y gweill! Ein siaradwraig wadd eleni fydd **Ms Sally Pettit.** Mi fydd hi'n sôn am ei phrofiadau fel merch a fagwyd ar aelwyd Saesneg a sut mae defnyddio'r ddwy iaith wedi bod o fudd iddi yn ei bywyd personol ac yn ei gwaith. Mae hwn yn bwnc perthnasol ac amserol dros ben gan fod y galw am weithwyr gyda sgiliau dwyieithog yn cynyddu'n gyson a phobl o bob oed yn dod yn fwyfwy ymwybodol o werth cymdeithasol ac economaidd eu Cymraeg. Felly ymunwch â ni o 6:45 ymlaen yn Ysgol Dewi Sant, ble fydd bwffe am ddim wedi ei baratoi ar eich cyfer! Bydd offer cyfieithu hefyd ar gael i'r rhai di-Gymraeg sydd am fynychu. Mae croeso i bawb ymuno, rydym yn gwerthfawrogi barn a chyfraniad pawb o'r gymuned. Er mwyn i ni sicrhau darpariaeth ddigonol i bawb a wnewch chi gadarnhau eich bod am ddod drwy ffonio'r swyddfa ar 01745 812822, e-bostio ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk neu drwy ddychwelyd y bonyn sydd ar dudalen gefn y newyddlen hon.

Cofiwch hefyd os ydych am gynnig eich hun neu enwebu rhywun arall i ddod yn aelod o Bwyllgor Rheoli'r Fenter yna cysylltu â ni:ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk neu ffoniwch 01745 812822

Blas ar weithgareddau Menter Iaith Sir Ddinbych y llynedd

- Mynychodd **436** o blant a phobl ifanc weithdai celf, chwaraeon a cherddoriaeth Cymraeg neu ddwyieithog
- Ymwelodd **118** o blant a phobl ifanc â lleoedd hanesyddol bwysig ar deithiau treftadol
- Derbyniodd **645** o rieni wybodaeth am fanteision dwyieithrwydd a gwybodaeth am Addysg Gymraeg
- Cafodd **2,256** o bobl ifanc ymweliad gan y DJ enwog Huw Stephens fel rhan o'i daith 'Ar eich ennill hefo'r Gymraeg'
- Cydweithiodd y Fenter â **28** o fudiadau lleol dros y flwyddyn!
- Mynychwyd **14** o sioeau a digwyddiadau i ledaenu gwybodaeth

Yn y rhifyn hwn:

Stomp Menter Iaith	2	Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam	3
Prom CIC	2	Ar dân dros y Gymraeg	4
Pwy yw'r Seleb?	2	Geraint Thomas MBE - Taith feicio	5
Sioe Dinbych a Fflint	3	Adnoddau dysgu newydd	6

Stomp Menter Iaith

Cynhaliwyd Stomp Farddol arall yn y gyfres ar Nos Wener, Mehefin yr 17eg. Roedd y Felin Brwcws dan ei sang a phawb yn barod am noson hwyliog braf. Roedd digon o chwerthin i'w glywed wrth i'r cystadleuwyr John Glyn Jones, Haf Llewelyn, Arwel Emlyn Jones, Gruffudd Antur a Les Baker ein diddori. Y Stompfeistr y tro hwn oedd Arwel 'Pod' Roberts, a wnaeth yn arbennig o dda i gadw trefn ar y beirdd a sicrhau bod y noson redeg yn esmwyth! Er bod y noson yn llawn o farddoniaeth wych, Arwel Emlyn Jones oedd yn fuddugol a chipiodd stôl y stomp - stôl bren wedi ei gwneud a'i rhoi'n hael i'r digwyddiad gan Alun Jones (Bwyellwyr Clwyd), Fferm Bryn Isa'. Hoffai'r Fenter ddiolch iddo fe , i Lenyddiaeth Cymru am eu nawdd, i'r Felin Brwcws am y lleoliad a hefyd i bawb a wnaeth fynychu'r digwyddiad a chyfrannu at yr hwyl. Diolch yn fawr.

PROM CLWB CIC!

Clwb Ieuenctid Cymraeg yn Y Rhyl yw CIC sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc rhwng 10 a 16 oed gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ddiweddar aethom i'w dawns fawr ddiwedd y flwyddyn i helpu gyda chydlynu'r noson. Merched yw'r rhan fwyaf o'r aelodau, ac roeddent i gyd wedi gwisgo'n ddel iawn yn eu ffrogiau a'u sodlau uchel. Braf oedd gweld criw o ferched ifanc o oedrannau gwahanol yn mwynhau eu hunain ac yn cymdeithasu â'i gilydd mewn disgo. Bu'r noson yn llwyddiant mawr, a gobeithiwn gydweithio eto yn fuan gyda'r Clwb. Os wyt ti eisiau mwy o wybodaeth am y clwb neu eisiau ymuno â'r hwyl e-bostia Emma Osborne -

Emma.Osborne@co-operative.coop

Pwy yw'r 'Selebs' Cymreig hyn?



Mae'r tair yma yn wynebau cyfarwydd, nid yn unig yng Nghymru, ond yn rhyngwladol. Mae eu hwynebau wedi cymysgu â'i gilydd, ond a ydych chi'n eu hadnabod?

Atebion ar **dudalen 4**

cyfieithu cymunedol
The Community Translating Company

cyfieithu ysgrifenedig

cyfieithu ar y pryd

prawfddarllen a golygu

cyrsiau cyfieithu

sesiynau gloywi iaith

prisiau arbennig i gyrff cymunedol ac elusennol

www.cyfieithucymunedol.org
post@cyfieithucymunedol.org

01492 642 796

Menter Iaith yn Sioe Dinbych a Fflint

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn gweithio gyda'r gymuned er mwyn ei chynorthwyo. Mae'n werthfawr iawn i ni glywed beth sydd gennych i'w ddweud - er mwyn i ni ymateb i hynny. Yn amlwg felly mae sioeau lleol yn bwysig iawn i ni ac ers sawl blwyddyn bellach rydym wedi cymryd y cyfle i fynychu Sioe amaethyddol Dinbych a Fflint. Roedd hi'n ddiwrnod brysur iawn eleni gyda'r tywydd yn braf a thros 300 o deuluoedd wedi ymweld â'r babell! Daeth rhai heibio am sgwrs, rhai i nôl adnoddau ac eraill i ofyn cwestiwn neu geisio cymorth. Braf iawn oedd gweld pob un. Roeddem yn rhannu pabell gyda nifer o'n partneriaid fel Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Sir Ddinbych, Tegan a Dechrau'n Deg ac roedd bwrlwm mawr yn y babell gyda pheintio wynebau, sesiynau stori a chân gan Catherine Aran, Sali Mali a Sam Tân yn ymweld â'r plant a dawnsio a chanu gyda'r cymeriad S4C 'Heini'. Roedd pob teulu a ddaeth heibio yn derbyn pecyn gyda llyfr lliwio Sam Tân Menter Iaith Sir Ddinbych yn ogystal â gwybodaeth ddefnyddiol am fanteision addysg Gymraeg a gwaith ein gwahanol bartneriaid. Mae'n debyg bod tipyn o hwyl a sbri yn y babell hefyd oherwydd iddi dynnu sylw trefnwyr yr ŵyl ac ennill y wobr gyntaf am y babell oedd ddim o natur amaethyddol orau ar faes y sioe am y drydedd flwyddyn yn olynol! Diwrnod gwych

HYSBYSEB SWYDD

Menter Iaith Sir Ddinbych
Swyddog Maes / Datblygu Llawn Amser

Cyflog £17,802 + cyfraniad pensiwn
Oriau – 37 awr yr wythnos
Lleoliad: Dinbych

Ydych chi'n frwd dros y Gymraeg?
Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn chwilio am berson egnïol a brwdfrydig a fydd yn gweithio yn bennaf gyda phlant a phobl ifanc.

Dyddiad cau hanner dydd, dydd Gwener 23 Medi 2011

Am ffurflen gais neu sgwrs anffurfiol cysylltwch â Gill Stephen ar
01745 812822 neu
gill.stephen@menteriaithdinbych.co.uk
Menter Iaith Sir Ddinbych, Adeilad Deiamwnt, 6 Heigad, Dinbych LL16 3LE

www.mentrauiaith-gogledd.com

(This is an advertisement for a post for which the ability to communicate through the medium of Welsh and English is essential)

Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2011

Ar ddiwrnod olaf Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam Menter Iaith Sir Ddinbych oedd yn gyfrifol am stondin Mentrau Iaith Cymru. Roedd stondin wedi bod ar faes yr eisteddfod drwy gydol yr wythnos gyda Mentrau iaith y Gogledd yn cynnal gweithgareddau i blant a phobl ifanc a chynnig gwybodaeth i oedolion. Trwy gydol y dydd roedd cyfle i blant gystadlu yn y gystadleuaeth "Lliwio'r ddraig Gymreig", gyda'r lluniau gorau yn ennill tegan meddal o ddraig goch! Yn y prynhawn cafwyd sesiynau Stori a Chân gyda Siân Beca, sy'n chwarae rhan Cathryn yn y rhaglen deledu boblogaidd iawn i bobl ifanc Cymru "Rownd a Rownd". Cyfres ddrama yw Rownd a Rownd sydd wedi tyfu mewn poblogrwydd dros y degawd diwethaf wrth i'r straeon ddelio â nifer o broblemau sy'n effeithio pobl ifanc yn eu bywydau bob dydd. Cafwyd storïau am Sali Mali a Sbot y ci, ac ar ôl gwrando ar y storïau roedd cyfle i'r plant wrando a dawnsio i hwiangerddi fel Gee Ceffyl Bach a Dacw Mam yn dŵad. Dywedodd Heledd Morgan, Swyddog Maes Cynorthwyol Menter Iaith Sir Ddinbych. 'Roedd y plant wrth eu bodd gyda'r straeon a'r caneuon traddodiadol, ond er hynny caneuon Rimbojam oedd y rhai mwyaf poblogaidd'. CD a lansiwyd y flwyddyn ddiwethaf gan Urdd Gobaith Cymru yw Rimbojam

gyda llwyth o ganeuon newydd gan Caryl Parry Jones. Wrth i'r plant liwio roedd cyfle i swyddogion y Fenter sgwrsio â rhieni a dosbarthu pecynnau yn hyrwyddo Addysg Gymraeg, rhaglenni i blant ar S4C a'r manteision economaidd a gymdeithasol o fod yn deulu dwyieithog yn ogystal â sôn am waith Menter Iaith Sir Ddinbych. Roeddent hefyd yn dosbarthu siartiau tyfu dwyieithog lliwgar. "Blodeuo efo'r Gymraeg" / "Flourish with Welsh". Mae'r adnodd defnyddiol yma wedi'i gynhyrchu ar y cyd rhwng holl Fentrau Iaith y Gogledd. Yn ogystal â bod yn ffordd hwylus o fesur taldra plant mae'r siart hefyd yn rhestru nifer o'r manteision o siarad Cymraeg e.e. *'Ar gyfartaledd yng Nghymru mae gweithwyr dwyieithog yn derbyn 8 -10% yn fwy o gyflog'* a hefyd *'Yn aml mae plant mewn ysgolion dwyieithog ar y blaen wrth ddarllen a chyfri'*. Os hoffech chi un o'r siartiau ar gyfer plant eich teulu, eich ysgol neu gylch meithrin lleol mae croeso i chi gysylltu â ni yma yn y Swyddfa ar 01745 812822 neu ebostio geralt@menteriaithdinbych.co.uk. Enillwyr Cystadleuaeth Lliwio'r Ddraig oedd :- 1af – Maisie Davies o Lanfyllin, 2il - Erin o Ddolgellau, 3ydd - Bethan o Gwmbrân.

Ar dân dros y Gymraeg!

Nod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ydi achub bywydau a lleihau'r peryg o dân - ac mae gwasanaeth dwyieithog yn rhan annatod o hynny. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth yn nodi sut mae'n ymdrechu i ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru a cheisio darparu gwasanaeth o'r un safon yn y ddwy iaith. Mae'r Cynllun yn rhan bwysig o bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth. Yng Nghymru, y Gymraeg yw Seithfed Gangen Amrywiaeth. Yn fwy diweddar, aeth y Gwasanaeth gam ymhellach drwy bwysleisio cwrteisi ieithyddol wrth hyrwyddo pwysigrwydd yr iaith i'w gweithwyr. O ganlyniad, mae gofyn i'r gweithwyr allu ynganu enwau pobl a llefydd yn gywir yn ogystal â bod yn ymwybodol o bwysigrwydd diwylliant Cymru. Dyma sail y Cynllun Iaith Gymraeg diweddaraf (2010-13) sy'n gofyn i'r holl weithwyr newydd, a'r rheini sydd wedi eu dyrchafu, ddysgu'r Gymraeg hyd at lefel sylfaenol.Mewn perthynas â choleg Llysfasi, a chyda chyngor Heddlu Gogledd Cymru, mae CD addysgiadol ar gael i gynorthwyo'r dysgwyr Cymraeg ddysgu cyfarchion ac yngan geiriau sylfaenol. Ers dechrau 2010, mae gofyn i bawb sydd wedi ei benodi neu ei ddyrchafu o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud prawf llafar Cymraeg. Yn y prawf mae disgwyl iddyn nhw ynganu enwau a chyfarch pobl yn gywir yn ogystal â siarad yn gryno amdanyn nhw eu hunain. Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi 1060 o bobl, ac mae modd iddyn nhw i gyd fanteisio ar y CD a sefyll yr arholiad. I gefnogi dysgwyr a hyrwyddo'r Gymraeg mae 'Pencampwyr yr Iaith Gymraeg' wedi eu penodi ledled y gogledd. Gweithwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg ydi'r Pencampwyr a'u dyletswydd nhw ydi bod yn gefn i'w cydweithwyr sy'n dysgu'r iaith. Dywedodd Colin Hanks, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol: "Mae nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru ac rydym ni fel gwasanaeth yn credu ei bod hi'n hynod bwysig roi cyfle i bobl gyfathrebu yn eu mamiaith.."Rydym ni'n ystyried y gallu i siarad Cymraeg yn sgil, ochr yn ochr â medrau angenrheidiol eraill. Y gweithwyr ydi asgwrn cefn unrhyw sefydliad llwyddiannus, yn enwedig yn y gwasanaethau brys, a bydd y strategaeth hon yn cryfhau medrau iaith ein gweithwyr i gynnig gwasanaeth dwyieithog i bobl y gogledd."

Pwy sy'n gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru?

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflogi amrywiaeth fawr o bobl i gyflawni llu o swyddogaethau gwahanol.
- Mae oddeutu 28% o'r gweithlu wedi'u penodi fel diffoddwyr tân. Yn ogystal â diffodd tanau, mae rhai'n cyflawni dyletswyddau eraill fel atal tanau, rheoli a datblygu medrau gweithwyr eraill.
- Mae 56% yn ddiffoddwyr tân rhan amser. Nid dyma eu prif swydd, ond maen nhw'n hyrwyddo diogelwch tân yn eu cymunedau ac yn barod i fynd allan ar alwad brys.
- Mae 3% yn gweithio yn yr Ystafell Reoli yn y Ganolfan Gyd-gyfathrebu, ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru, gan ymdrin yn bennaf â galwadau ffôn brys.
- Mae tua 13% o'r gweithlu yn cyflawni ystod o swyddogaethau arbenigol eraill e.e. rheoli'r fflyd a'r gorsafoedd, rheoli adnoddau dynol neu'n gyfrifol am gyllid, iechyd a diogelwch neu ddatblygu polisïau.

LIMRIGAU A LOL!

Noson o limrigau, hwyl a cherddoriaeth!

Yng ngwesty'r Delyn, Corwen. 16/09/2011 am 8y.h

Am fwy o wybodaeth, neu i gystadlu: 01745 812822

ATEBION PôS TUDALEN 2:
Catheine Zeta Jones, Alex Jones, Duffy

Geraint Thomas MBE– Taith Feicio

Chwe mil a hanner o bunnoedd at achos da!
Clwb Criced Dinbych oedd diwedd y daith nos Sadwrn, Gorffennaf yr 31ain i oddeutu 50 o feicwyr o Gymru a oedd wedi ymuno â Geraint Thomas ar ei daith codi arian ar gyfer Ymchwil Alzeihmer UK a'r Sroke Association.
Roedd dros 100 o bobl yn y Clwb Criced ar Ffordd Ystrad i groesawu Geraint a'i gyd feicwyr a oedd wedi cychwyn yn fuan 'fore Sadwrn o Gaerdydd! Roedd nifer o'r beicwyr wedi llwyr ymlâdd ar ôl cyrraedd, ond yn ffodus iawn roedd mochyn wedi'i rostio a digon o ddiodydd ar gael ar eu cyfer yn y babell oedd wedi'i godi ar y cae.
Diolchodd Emyr 'Slotter' Thomas i bawb oedd wedi helpu i wneud y noson yn un fythgofiadwy, er yn emosiynol, i'w deulu. Roedd y daith feicio hon yn deyrnged i'w dad Glyn Thomas a fu farw yn gyn-harach eleni Bu Glyn yn ymwneud â'r clwb am flynyddoedd lawer, ac roedd y

noson yma yn cydnabod ei wasanaeth hir fel cyn-lywydd y clwb.
Syniad Sara, wyres Glyn, oedd gwneud rhywbeth er cof am ei thaid. Fel mae'n digwydd, mae Geraint Thomas (MBE ac enillydd medal aur yn gemau Olympaidd Beijing) yn gariad iddi a chyda hynny tyfodd y syniad o daith feicio o'r de i'r gogledd!
Bu raffl ac ocsiwn ar y noson gyda'r crys a wisgodd Geraint yn y Tour de France yn mynd am £90! Hoffai Clwb Criced Dinbych ddiolch yn arbennig i Sara a Geraint a Slotter am eu gwaith yn trefnu'r noson. Diolch hefyd i David Roberts a Craig Stubbs, swyddogion Clwb Criced Dinbych, am drefnu pethau o ran y clwb a i Lee Mason a Stuart Griffiths am redeg y bar.
Os ydych chi eisiau ychwanegu at y £6,512 sydd eisoes wedi ei gasglu (ac sy'n cynyddu yn ddyddiol!) mae modd rhoi arian drwy fynd i'r wefan;
www.justgiving.com/teams/Taid
Unwaith eto diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth.

Adnoddau Dysgu Newydd Cyfrwng Cymraeg

Yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Wrecsam a'r Fro bu i Brifysgol Bangor lansio adnoddau dysgu newydd drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd. Adnoddau er mwyn magu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faes Anabledd Dysgu drwy'r Gymraeg ydyn nhw. Maen nhw'n addas ar gyfer cynulleidfa eang ac mae modd i'w gweld ar 'Y Porth' ar wefan Y Coleg Cymraeg. Cafodd y prosiect ei ariannu gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chafodd ei gyd-drefnu gan gymrawd dysgu cyfrwng Gymraeg yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Bangor, oedd hefyd wedi derbyn nawdd gan y Coleg Cymraeg. Ymateb ydyn nhw i gynlluniau'r Ysgol i ymestyn eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg am eu bod yn ymwybodol iawn o'r angen i baratoi eu myfyrwyr gofal iechyd ar gyfer gweithio mewn sefyllfaoedd dwyieithog yn y dyfodol. Mae pobl gydag anableddau dysgu yn grŵp bregus, felly mae unrhyw ymdrech i'w gwneud yn fwy cyfforddus yn hynod o bwysig. Mae cynnig y cyfle iddyn nhw siarad ac ymwneud â phobl yn eu dewis iaith yn un ffordd o wneud hynny. Datblygwyd y deunydd dwyieithog gan Ruth Wyn, myfyriwr ymchwil ôl-raddedig o Brifysgol Nottingham ac enillodd y Gwasanaeth Iechyd 'Gwobr y Gymraeg' gan Lywodraeth Cymru am y gwaith. Bydd yr adnoddau yn werthfawr iawn i holl brifysgolion Cymru o hyn ymlaen fel arf dysgu yn ogystal â bod yn werthfawr i bobl ag anableddau dysgu a fydd yn siŵr o werthfawrogi'r dewis ieithyddol.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Cymorth a chyngor am ddim i bobl, mudiadau a busnesau ar gynyddu ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd yn Sir Ddinbych.

Cysylltwch â ni 01745 812822 ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk

Menter Iaith Sir Ddinbych
Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

Gardd Gobaith Garden

Menter Iaith Sir Ddinbych
Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

Efallai eich bod wedi clywed i brosiect Menter Iaith Sir Ddinbych **"Gardd Gobaith Garden"** sef creu gardd newydd i blant Ysbyty Glan Clwyd, gyrraedd rhestr fer cronfa 'Miliynau'r Jiwbilî' y Loteri Fawr yn ddiweddar. Dyma gynllun sy'n cynnig grantiau i wahanol brosiectau cymunedol pob blwyddyn. Aeth ein prosiect ben ben ag un o'r prosiectau eraill ar raglen ITV Wales Tonight ar ddydd Mercher y 29ain o Fehefin. Yn anffodus ni enillon ni'r bleidlais ffôn oedd yn penderfynu pwy oedd i dderbyn yr arian ar y noson gan gael ein curo i'r brig gan brosiect Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaeth hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth i'r deillion. Roedd y prosiect hwn yn targedu pobl â nam ar eu golwg yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy gan ddarparu cyrsiau wedi eu teilwra i anghenion unigolion yn eu cartrefi eu hunain. Er i ni beidio ag ennill y tro hwn hoffai'r Fenter ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth yn ystod yr ymgyrch a dymuno'n dda iawn i brosiect Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw!

Rydym bob amser yn croesawu cyfraniadau gan y gymuned. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn hwn drwy gysylltu â'r swyddfa:

Menter Iaith Sir Ddinbych

Adeilad Deiamwnt, 6 Heigad,

Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3LE

01745 812822

ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk

Does unlle tebyg i...
Nant Gwrtheyrn - dewch i'n gweld...

- Y lle delfrydol i ddysgu Cymraeg
- Bythynnod hunan-arlwyol
- Priodasau
- Cynadleddau a Digwyddiadau
- Caffi
- Canolfan Treftadaeth a Bwthyn Y Chwarelwr

01758 750334
post@nantgwrtheyrn.org
www.nantgwrtheyrn.org

nant gwrtheyrn

Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon y Gymuned

Cwmni lleol sydd â'r gallu â'r arbenigedd i ddarparu cyngor cyfreithiol heb ei ail

Cyfreithwyr
Swayne Johnson

Am broffesiynoldeb digyfaddawd ymroddiad diflino a gwasanaeth diguro

Rhad ffôn: 0800 328 9631
www.swaynejohnson.com

Rhuthun ~ Dinbych ~ Llanelwy ~ Llandudno

Ffurflen mynychu Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Dinbych

Enw……

Mudiad (os yn berthnasol)……

Byddaf/Ni fyddaf yn ymuno â chi ar gyfer y bwffe cyn y Cyfarfod Blynyddol ar y 5ed o Hydref 2011

Llofnod ……